# Polisi Deall Maethu Sir Ddinbych

| | |
|---|---|
| **Cymeradwywyd gan** | **Cabinet** |
| **Dyddiad Cymeradwyo** | **25/03/2025** |
| **Dyddiad Rhoi ar Waith** | **25/03/2025** |
| **Perchennog** | **Rhiain Morrlle** |
| **Dyddiad Adolygu** | **25/03/2028** |

# Polisi Deall Maethu Sir Ddinbych

## Rheoli Fersiynau

Mae’r ddogfen hon yn amodol ar adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi. Gellir dod o hyd i’r fersiynau diweddaraf o’n cyhoeddiadau ar ein gwefan. Cyn cysylltu â ni ynghylch cynnwys y ddogfen hon, argymhellir i chi gyfeirio at y fersiwn diweddaraf ar y wefan a’r canllawiau perthnasol.

| Fersiwn | Dyddiad Cymeradwyo | Cymeradwywyd gan | Nodiadau / newidiadau |
|---|---|---|---|
| f1.0 | ** | | Polisi Newydd |
| f1.1 | 21/03/2025 | David Kennedy | Ail-fformatio |

# Polisi Deall Maethu Sir Ddinbych

## Cynnwys

Rheoli Fersiynau 2
Cynnwys 3
Cyflwyniad 4
Gweithio i Sir Ddinbych a Maethu i Sir Ddinbych 4
Pwrpas 4
Cydraddoldeb 4
Cymhwysedd 4
Cwmpas y Ddarpariaeth 5
Y weithdrefn ar gyfer gofyn am amser i ffwrdd 6
Cofnodi a Monitro 6
Anghytuno / Apeliadau 7
Gwybodaeth ac Adnoddau Ychwanegol 7

# Polisi Deall Maethu Sir Ddinbych

## Cyflwyniad

### Gweithio i Sir Ddinbych a Maethu i Sir Ddinbych

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae gofalwyr maeth yn ei wneud i gymdeithas ac yn enwedig i fywydau plant sy'n derbyn gofal. Mae Sir Ddinbych yn deall bod angen rhywfaint o hyblygrwydd yn nhrefniadau gweithio gofalwyr maeth sy'n gweithio i'r Cyngor er mwyn bodloni anghenion y plant maen nhw'n gofalu amdanynt.

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i gefnogi unrhyw aelod o staff sy'n ofalwr maeth neu'n ofalwr maeth unigolyn cysylltiedig cymeradwy, neu sydd yn y broses o ddod yn ofalwyr maeth ar gyfer Maethu Cymru Sir Ddinbych neu unrhyw un o awdurdodau lleol eraill Maethu Cymru.

## Pwrpas

Pwrpas y polisi hwn yw rhoi cymhelliant a lleihau'r rhwystrau i ddod yn Ofalwr Maeth i Faethu Cymru Sir Ddinbych.

Cydnabod yr ymrwymiadau a'r gofynion ychwanegol o ofalu am blant sy'n derbyn gofal trwy gynnig absenoldeb arbennig ychwanegol a fydd yn cael ei gynnig i ddarpar ofalwyr maeth a gofalwyr maeth presennol yn ogystal â gofalwyr maeth unigolion cysylltiedig Maethu Cymru Sir Ddinbych.

## Cydraddoldeb

Mae'n rhaid gweithredu'r Polisi  Cydraddoldeb i sicrhau nad oes gwahaniaethu ar sail:  Hil ac Ethnigrwydd; Anabledd; Oedran; Rhyw; Cyfeiriadedd Rhywiol; Crefydd a Chred; Y Gymraeg neu Hawliau Dynol; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Ailbennu Rhywedd; Priodas a Phartneriaeth Sifil.

## Cymhwysedd

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff a gyflogir gan y Cyngor, ac eithrio'r unigolion mewn sefydliadau addysgol a chanddynt bwerau dirprwyedig. Bydd gweithwyr yn cael cyfleoedd cyfartal mewn cyflogaeth.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i weithwyr dan gontract Cyngor Sir Ddinbych sydd:

## Polisi Deall Maethu Sir Ddinbych

- Yn gwneud cais i ddod yn ofalwyr maeth i Faethu Cymru Sir Ddinbych neu unrhyw awdurdod lleol Maethu Cymru arall. Nid yw'n berthnasol i'r rhai sy'n cael eu hasesu gan asiantaethau masnachol, elusennol neu breifat allanol.
- Yn ofalwr maeth cymeradwy Maethu Cymru Sir Ddinbych neu wedi'i gymeradwyo gan unrhyw awdurdod lleol Maethu Cymru.
- Yn ofalwyr maeth cymeradwy ac sydd â phlentyn yn eu gofal (neu sydd wedi bod â phlentyn yn eu gofal am 75% o'r 12 mis blaenorol) neu'n ofalwr sy'n berthynas cymeradwy.
- 6 mis neu fwy o gyflogaeth gyda Chyngor Sir Ddinbych
- Bydd gan weithwyr rhan amser hawliau pro-rata.
- Nid yw'n berthnasol i Weithwyr Asiantaeth, Gweithwyr Achlysurol nac Ymgynghorwyr.

## Cwmpas y Ddarpariaeth

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i gefnogi unrhyw aelod o staff sy'n ofalwr maeth Maethu Cymru neu'n ofalwr maeth unigolyn cysylltiedig cymeradwy. Bydd Sir Ddinbych yn gwneud hyn, pan fo'n bosibl, drwy greu sefydliad maethu sy'n gyfeillgar ac sy'n cynnig trefniadau gweithio'n hyblyg sy'n ymateb i anghenion yr holl ofalwyr maeth pan fo hyn yn gydnaws â gofynion eu swydd.

Mae polisi gweithio'n hyblyg Sir Ddinbych, Absenoldeb Sy'n Ystyriol o Deuluoedd ac Absenoldeb Arbennig yn ogystal â pholisïau absenoldeb rhieni i gyd yn berthnasol i ofalwyr maeth.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gwerthfawrogi Gofalwyr Maeth Maethu Cymru a bydd yn eu cefnogi nhw drwy gynnig 5 diwrnod ychwanegol o absenoldeb arbennig mewn cyfnod o 12 mis, fel a ganlyn:

- Asesiad a hyfforddiant cychwynnol cyn cymeradwyo unigolyn yn ofalwr maeth.
- Presenoldeb mewn panel ar gyfer cymeradwyaeth.
- Cyfarfodydd adolygu plant, hyfforddiant a chyfarfod adolygu Gofalwyr Maeth blynyddol.

Rhaid darparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Rheolwr i ddangos eu bod yn Ofalwyr Maeth wedi'u cymeradwyo gyda Chyngor Sir Ddinbych (neu awdurdod lleol Maethu Cymru arall) neu yn cael eu hasesu'n weithredol i fod yn Ofalwyr Maeth gyda Chyngor Sir Ddinbych (neu awdurdod lleol Maethu Cymru arall).

Gellir cymryd yr absenoldeb fel diwrnodau llawn neu hanner diwrnodau.

# Polisi Deall Maethu Sir Ddinbych

## Y weithdrefn ar gyfer gofyn am amser i ffwrdd

Dylid defnyddio’r Polisi amser o’r gwaith ar gyfer gofyn am amser i ffwrdd â thâl a’i gofnodi. Dylai'r cais am absenoldeb â thâl nodi’r rheswm a faint o wyliau yr ydych chi’n dymuno eu cymryd.

Bydd rheolwr atebol y gweithiwr yn cymeradwyo’r absenoldeb yn ôl disgresiwn cyn yr amser i ffwrdd gan ystyried amgylchiadau unigol pob achos a gofynion gweithredol y busnes. Bydd yr absenoldeb yn cael ei ystyried a'i gymeradwyo ar sail pro rata.

Pan fo angen mwy na’r uchafswm o absenoldeb â thâl deall maethu ar unigolyn nag y mae ganddo hawl iddo, dylid trafod dewisiadau eraill fel gwyliau blynyddol, gwyliau wedi’i fancio, oriau hyblyg neu wyliau di-dâl ychwanegol a gofyn amdanynt yn unol â’r polisïau priodol.

Rhaid i Reolwr Tîm Maethu Cymru Sir Ddinbych ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i reolwr y gweithiwr i ddangos eu bod yn Ofalwyr Maeth cymeradwy gyda Chyngor Sir Ddinbych (neu awdurdod lleol Maethu Cymru arall) neu yn cael eu hasesu’n weithredol i fod yn Ofalwyr Maeth gyda Chyngor Sir Ddinbych (neu awdurdod lleol Maethu Cymru arall).

Gellir cymryd yr absenoldeb fel diwrnodau llawn neu hanner diwrnodau.

## Cofnodi a Monitro

Dylid cadw / uwchlwytho cofnod o absenoldeb arbennig y gofynnwyd amdano ac a gymeradwywyd ar gofnod personol y gweithiwr.

Os yw absenoldeb arbennig wedi’i wrthod dylid gwneud nodyn o’r rheswm/rhesymau am hyn a’i gofnodi/uwchlwytho ar gofnod personol y gweithiwr.

Dylid cofnodi unrhyw amser a gymerir yn briodol ar Vision Time neu ar y system taflenni amser fel Absenoldeb Maethu â thâl.

Bydd y polisi yn cael ei adolygu bob 3 blynedd dan gyfarwyddyd a chefnogaeth Addysg a Gwasanaethau Plant. Dirprwyir y cyfrifoldeb dros wneud mân ddiwygiadau i’r Pennaeth Gwasanaethau Cefnogaeth Gorfforaethol e.e. termau, disgrifiadau teitlau, newidiadau cyfreithiol y mae’n rhaid eu rhoi ar waith.

## Polisi Deall Maethu Sir Ddinbych

Ni chyflwynir newidiadau i'r polisi heb eu trafod yn gyntaf ag undebau llafur a gydnabyddir gan y Cyngor.

## Anghytuno / Apeliadau

Dan amgylchiadau arferol bydd unrhyw apeliadau sy'n deillio o weithrediad y polisi yn cael eu datrys drwy'r Weithdrefn Cwynion.

## Gwybodaeth ac Adnoddau Ychwanegol

Polisi amser o'r gwaith

Gwybodaeth Maethu Sir Ddinbych

Y Rhwydwaith Maethu